



**Academi Genedlaethol ar gyfer
Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
National Academy for
Educational Leadership Wales**

Cofnodion/Nodiadau Gweithredu o Gyfarfod y Bwrdd 23 Mawrth 2023

Yn Bresennol: Dr Sue Davies (SD) (Cadeirydd)
Tegwen Ellis (TE) (Prif Weithredwr)
Martin Price (MP)
Mike James (MJ)
Katie Phillips (KPH)
Yusuf Ibrahim (YI)
Paul Marshall (PM)
John Graystone (JH)
Gayle Shenton (GS) (Cydymaith)
Jayne Woolcock (JW) (Cydymaith)
Michaela Renkes (MR) (Llywodraeth Cymru)
Gareth Key (GK) (Ysgrifenyddiaeth)

1. Croeso, cadarnhau cofnodion a chymau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf

Agorodd SD y sesiwn a chroesawu pawb i gyfarfod wyneb yn wyneb cyntaf y Bwrdd eleni. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Debbie Nash (DN).

Nid oedd unrhyw wrthdaro buddiannau i'w nodi.

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gofnod gwir a chywir. Roedd MJ am gofnodi bod yr adborth ar Seiberddiogelwch yr adroddwyd arno yn y cyfarfod blaenorol wedi dod gan Lywodraeth Cymru ac nid ganddo ef yn bersonol. Mae MJ wedi rhoi'r adborth i Kirsty Payne a TE i'w ystyried.

Nododd SD fod yr holl gamau gweithredu ar y log gweithredu wedi'u cwblhau ac eithrio'r adroddiad gwerthuso o'r gynhadledd lesiant. Cadarnhaodd TE y bydd yr adroddiad yn cael ei rannu ar ôl ei gwblhau. Esboniodd TE hefyd fod y ffordd o werthuso ac adrodd yn newid, ac y bydd hyfforddiant yn cael ei ddarparu i aelodau'r tîm i gefnogi'r newid.

Roedd SD yn dymuno egluro bod y rolau a roddir i aelodau'r bwrdd fel cyfarwyddwyr arweiniol yn rhai strategol nid yn weithredol. Cadarnhaodd TE nad yw'n rôl weithredol ond y dylai aelodau'r bwrdd ddarparu cyngor ac arweiniad ar eu meysydd a mynychu digwyddiadau cysylltiedig lle bo'n bosibl.

2. Diweddariad gan Gymdeithion

Croesawyd GS a JW gan SD a chadwyd cyflwyniad ganddynt ar eu rolau a'u profiadau fel cymdeithion a diweddariad ar eu gwaith comisiwn hyd yn hyn.

GS yw pennaeth Ysgol Gymraeg Castell-nedd a chyn hynny roedd yn bennaeth Ysgol Llwynderw ac Ysgol Felindre yn Abertawe. Mae GS wedi bod yn arweinydd yn y sectorau cyfrwng Cymraeg a Saesneg ac yn awr mae ar secondiad i Awdurdod Lleol Castell-nedd Port Talbot fel 'Arweinydd Dysgu Proffesiynol'.

Mae JW yn bennaeth ar Ysgol Gynradd Penlle'r-gaer yn Abertawe. Mae ganddi brofiad fel Cynghorydd Her, Asesydd CPCP a bu'n Swyddog Datblygu Cynradd ar gyfer Rhifedd yn yr awdurdod lleol yn 2018-2020. Mae JW hefyd wedi cymryd rhan mewn nifer o brosiectau ysgol rhyngwladol, gan hebrwng plant i wledydd fel Bangladesh, y Ffindir, Twrci a Sbaen.

Rhannodd GS a JW eu profiadau o weithio gyda'r Academi Arweinyddiaeth fel cymdeithion dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Cafwyd diweddariad byr ar eu comisiwn, a buont yn rhannu eu harsylwadau a'u dyheadau.

Diolchodd SD i GS a JW am eu cyflwyniad gan gydnabod y fraint o'u cael fel cymdeithion.

3. Adroddiad y Pwyllgor Cyllid/Adnoddau Dynol

Rhoddodd MP adroddiad cryno o gyfarfod y Pwyllgor Cyllid/Adnoddau Dynol (AD) a gynhaliwyd yn gynharach yn y mis.

Nid oedd unrhyw ddiweddariad arwyddocaol i staffio ac AD.

Esboniodd MP fod y gwariant yn unol â'r gyllideb ac nad oes gan y pwyllgor achos i bryderu. Fe fydd gwarged bychan ar ddiwedd y flwyddyn a fydd o fewn y swm derbyniol i'w gario drosodd o 2%.

Rhoddodd MP ddiweddariad ar y model gweithio hybrid a'r gwerthusiad a wnaed, yn benodol y posibilrwydd o brydlesu gofod swyddfa. Dywedodd MP wrth y bwrdd fod y pwyllgor wedi trafod yr opsiynau ac wedi ystyried yr adborth gan staff yn yr adroddiad. O ganlyniad, mae'r pwyllgor yn argymhell i'r bwrdd fod 'gofod' swyddfa bach yn cael ei brydlesu am 12 mis yn Storage Giant, Pen-y-bont ar Ogwr. Bydd y tîm yn defnyddio'r gofod ar gyfer cyfarfodydd, i gynllunio ac ar gyfer dyddiau dysgu proffesiynol. Bydd y brydles hefyd yn galluogi'r Academi Arweinyddiaeth i logi ystafelloedd bwrdd yn safleoedd eraill Storage Giant yng Nghaerdydd a Chasnewydd y gellid eu defnyddio ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd. **Roedd y Bwrdd yn hapus i gymeradwyo'r argymhelliad.**

Diolchodd SD i MP am ei adroddiad ac roedd y Bwrdd yn hapus i dderbyn cofnodion y pwyllgor a'r argymhellion ynddo.

4. Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Cyflwynodd MJ yr adroddiad o gyfarfod y pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a gynhaliwyd yn gynharach yn y mis.

Eglurodd MJ beth yw rôl y cyfarwyddwr cyswllt.

Cadarnhaodd MJ y bydd Cymdeithion yn dal i gael eu galw'n Gymdeithion tra eu bod yn parhau i weithio ym myd Addysg, beth bynnag fyddo hyd yr amser.

Dywedodd MJ fod y cynllun archwilio mewnol wedi'i gyflwyno i'r pwyllgor. Mae wedi cynyddu o 14 diwrnod y llynedd i 17 diwrnod eleni ac roedd y tri diwrnod ychwanegol ar gyfer gweithgareddau diogelu data sy'n flaenoriaeth uchel gan Lywodraeth Cymru.

Fe'u hysbyswyd y bydd y mesurau rheoli ariannol yn cael eu hadolygu bob dwy flynedd yn hytrach na bob blwyddyn, yn enwedig o ystyried canlyniad cadarnhaol yr adolygiad diwethaf.

Cafodd y risgiau o'r gofrestr risg eu hadolygu a bu'r pwyllgor yn ystyried y newidiadau.

Diolchodd SD i MJ am ei adroddiad gan gyfeirio at ddiwydrwydd y pwyllgor wrth ystyried risg. Roedd y Bwrdd yn hapus i dderbyn cofnodion ac adroddiad archwilio'r pwyllgor.

5. Adroddiad y Prif Weithredwr yn erbyn y Cynllun Corfforaethol

I ddechrau, trafododd TE y sylw ar rôl y bwrdd a'r sefydliad. Cytunwyd bod angen trafodaeth bellach ynghylch cwrdd wyneb yn wyneb yn amlach. Yna, hysbysodd TE y bwrdd fod y fersiwn ddiweddaraf o *Ein Cenhadaeth Genedlaethol: Safonau uchel a dyheadau i bawb* wedi'i chyhoeddi a bod Arweinyddiaeth yn awr yn ymddangos yn amcan 4 – addysgu ac arweinyddiaeth o ansawdd uchel. Mynegodd TE bryderon ynghylch cyfuno arweinyddiaeth gydag addysgu a'i safle gyda'r Gweinidog presennol a bydd yn monitro sut y caiff arweinyddiaeth ei chynnwys ym mhob eitem. Mae'r Academi Arweinyddiaeth wedi'i henwi yn y ddogfen.

Trafododd TE y data ynghylch y gynhadledd lesiant a fydd yn cael eu dosbarthu i holl aelodau'r bwrdd. Mae'r data'n cynnwys cymhariaeth â chynhadledd y llynedd. Trafododd TE sut y bydd y data'n cael eu defnyddio ar gyfer cynadleddau'r dyfodol a rhai o uchafbwyntiau'r adroddiad.

Yna, darparodd TE adroddiad cynnydd ar yr holl ffrydiau gwaith gan dynnu sylw at gynnydd a chyflawniadau diweddar:

Sicrhau ansawdd - Mae yna alwad agored, os oes rhywun yn dod ymlaen ar unrhyw adeg mae yna broses i'w cynnwys nhw.

Arloesi – Mae Cyfres 4 wedi cychwyn. Mae un o'r rhain yn wyneb yn wyneb yn unol â phenderfyniad y mynychwyr.

Arweinyddiaeth System - Mae Cymdeithion yn dal i drafod â rhanddeiliaid gan roi adborth a chynghor yn rheolaidd. Mae hyn yn cynyddu wrth i nifer y Cymdeithion dyfu. Bydd gwaith comisiwn Cohort 3 a 4 yn cael ei graffu yr wythnos nesaf, mae Estyn ar y ddau banel, gobeithio bydd yna lansiad yn dilyn. Mae Cohort 5 wedi'i rannu yn ddau grŵp ar gyfer eu comisiynau; Cwricwlwm i Gymru a Llesiant a byddant yn derbyn eu cwestiynau ym mis Ebrill. Byddant yn gweithio i'r un amserlen â Cohort 4. Mae'r hysbyseb ar gyfer Cohort 6 wedi mynd allan ac rydym yn gobeithio recriwtio 18 o uwch arweinwyr. Mae 3 grŵp gweinidogol wedi'u sefydlu (cynradd, uwchradd a phob oed) i'w defnyddio i gynnis cynghor i'r Gweinidog. Mae ganddynt eu cylch gorchwyl eu hunain ac maent wedi penodi cadeirydd ac is-gadeirydd i bob grŵp. Mae rhai o'r aelodau'n Gymdeithion. Hefyd, mae 7 Hyrwyddwr Cyrhaeddiad wedi'u penodi ac maent yn rhan o beilot fel blaenoriaeth Weinidogol.

Datblygu Arweinyddiaeth - Yn ddiweddar, cafwyd y gyfres 'Datgloi Arweinyddiaeth' ac Anghenion Dysgu Ychwanegol Arweinyddiaeth a chafwyd croeso da. Mae gweminarau gwrth-hiliaeth ac amrywiaeth ar gyfer mis Mai. Rydym wrthi'n trafod i gael arweinwyr o'r tu allan i fyd addysg i gymryd rhan gan fod hyn wedi cael derbyniad da yn ystod Covid. Bydd cynhadledd yr arweinwyr canol yn cael ei chynnal yr wythnos nesaf ac rydym hefyd yn cynnal cynhadledd DARPL ar y cyd ag EWC sydd wedi gwerthu allan. Mae gennym gynhadledd wyneb yn wyneb Cwricwlwm i Gymru ym mis Mehefin. Trechu tlodi yw'r thema barhaus gyda'r tair gwlad ac rydym yn trafod ffyrdd o weithio ac astudiaethau cymharol gyda phrifysgolion.

Mewnwelediad – Diolchodd TE i YI am ei waith yn mynychu'r lansiad arweinyddiaeth ar gyfer adroddiad y Sefydliad Dysgu. Mae'r argymhellion yn cael eu gweithredu gan Colegau Cymru.

Adnoddau - Dywedodd TE wrth y bwrdd fod yr Academi Arweinyddiaeth yn cynnal ei pherthynas â'r Athro Ken Jones drwy sicrhau bod yr 8 dilysnod yn cael eu harchwilio ymhellach.

Llesiant - Mae'r gwaith yn mynd rhagddo a'r Academi Arweinyddiaeth wedi sefydlu partneriaethau ag UWTSD a Glyndŵr i ddatblygu cynnig dysgu proffesiynol ar gyfer lechyd Meddwl a Llesiant.

Cynllunio Gweithlu Strategol – Mae adroddiad y penaethiaid gweithredol wedi'i rannu â Llywodraeth Cymru. Mae Prosiect Recriwtio Gweithlu Strategol wedi cychwyn ond mae wedi'i chael hi'n anodd ymgysylltu â dau Awdurdod Lleol.

Corfforaethol – Dylai'r cynnig grant fod gyda ni yfory. Mae'r broses adolygiad teilwredig wedi cychwyn ac asesiad risg wedi'i gwblhau. Bydd yr adolygiad yn digwydd y flwyddyn nesaf.

Swyddogaeth Weithredol – Ar ôl derbyn cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru byddwn yn bwrw ymlaen i hysbysebu swydd Pennaeth y Gymraeg. Bydd y swydd yn

uniongyrchol atebol i TE. Rhoddodd MR yr hawl i ni ddechrau recriwtio er mwyn cael rhywun yn y swydd erbyn mis Medi, er nad oes arian wedi'i ryddhau eto.

Cyfathrebu a Marchnata – Byddwn yn symud i ffordd newydd o gasglu data. Bydd Charlotte yn esbonio'r broses newydd i'r bwrdd. Cododd MR y mater y dylai logo Llywodraeth Cymru fod ar unrhyw ddeunydd marchnata gan yr Academi Arweinyddiaeth.

Rhanddeiliaid a Gwaith Partneriaeth - Mae'n mynd o nerth i nerth. Penderfynodd grŵp cyfeirio'r rhanddeiliaid i gynyddu eu nifer ac mae'r swyddi hyn wedi'u hysbysebu. Cafwyd ymateb rhagorol, a chafodd y rhanddeiliaid newydd eu dewis i lenwi bylchau yn y grŵp, er enghraifft, cynrychiolwyr Unedau Cyfeirio Disgyblion a rhai lleoliadau daearyddol, er enghraifft, cynradd Saesneg yn Sir Benfro.

Diolchodd SD i TE am adroddiad llawn gwybodaeth a oedd yn amlygu'r holl faterion allweddol ac a ysgogodd sgysiau heriol a defnyddiol iawn.

Mae JG yn dymuno diolch i'r tîm am y gwaith maent wedi'i wneud a'u llongyfarch ar y gwaith a gwblhawyd. Ategwyd hyn gan SD.

6. Dyddiad y cyfarfod nesaf, eitemau ar gyfer yr agenda a chau'r cyfarfod

Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd ar 25 Mai – cyfarfod ar-lein.
Daeth y cyfarfod i ben am 13.00pm

Log Gweithredu

Rhif		Perchennog	Dyddiad Cau	Statws
209	Amlygu unrhyw beth perthnasol o'r adroddiad monitro gwleidyddol	MP	Parhaus	
220	Cadarnhau manylion brandio ar ddeunydd marchnata'r Academi	MR	Mai 2023	
221	Diweddarau cyfeiriadau e-bost i Gareth	SD	Parhaus	